

NODAU

Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr



Manylion Cyswllt

 CardiffStudentVoice

 @CU_StudentVoice

 StudentReps@Caerdydd.ac.uk

 cardiffstudents.com/studentvoice

Nodau Cynrychiolwyr wedi'u hesbonio



“

Mae Undeb Myfyrwyr Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau bod Llais y Myfyrwyr yn cael ei glywed a'i gymryd o ddifri ar lefel mynediad.

Byddwch yn chwarae rhan hanfodol yn hyn trwy weithio gyda'r Brifysgol. mynychu eich Paneli Staff Myfyrwyr a chyfathrebu gyda Undeb y Myfyrwyr am faterion academaidd.



Mae tîm Llais y Myfyrwyr wedi creu taflen Nodau Cynrychiolydd er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau sydd gennych fel Cynrychiolydd Myfyriwr Academaidd.
Dyma'r pum categori sydd wedi'u cynnwys:

- Paratoi am y rôl
- Dyletswyddau'r rôl
- Ymgysylltu
- Cyfathrebu
- Adlewyrchu/Adborth

Bydd disgwyl i chi gyflawni a rhoi tystiolaeth o leiaf un nod o bob categori er mwyn cyflawni eich tystysgrif Cynrychiolydd Academaidd.

Mae angen danfon yr holl dystiolaeth at studentreps@caerdydd.ac.uk



| PARATOI AR GYFER EICH RÔL | DYLETSWYDDAUR RÔL | YMGYSYLLTU | CYFATHREBU | ADLEWYRCHU/ADBORTH |
|---|--|--|---|---|
| <p>MYNYCHU HYFFORDDIANT</p> <p>Dylai pob ysgol gael hyfforddiant cynrychiolydd sy'n benodol i'w cwrs, dan arweiniad Undeb y Myfyrwyr. Mae hwn yn gyfle gwych i chi ddysgu am eich rôl, gofyn cwestiynau a chwrrd â chynrychiolwyr cyrsiau eraill.</p> | <p>MYNYCHU O LEIAF 2 PANEL STAFF MYFYRWYR</p> <p>Un o rannau pwysicaf eich rôl yw i fynychu cyfarfodydd panel myfyrwyr. Dyma'ch cyfle i roi adborth i uwch aelodau staff eich ysgol ar faterion y mae'r myfyrwyr wedi'u codi.</p> | <p>MYNYCHU CYNHADLEDD CYNRYCHIOLWYR</p> <p>Yn ystod Wythnos Siarad mae Undeb Myfyrwyr yn cynnal cynhadledd Cynrychiolydd. Dyma gyfle i chi ddysgu gymhwysu eich profiad fel cynrychiolydd ar gyfer eich cyfleon cyflogaeth yn y dyfodol. Mae hefyd yn gyfle i roi adborth am eich rôl hyd yn hyn a chwrrd â chynrychiolwyr eraill.</p> | <p>CYFLEU EICH PRESENOLDEB I'CH CWRS</p> <p>Mae rhai ysgolion yn gwneud hyn yn dda iawn. Gwnewch yn siŵr fod myfyrwyr ar eich cwrs yn gwybod mai chi yw ei Cynrychiolydd a'u bod yn gallu dod i siarad â chi os oes gennyn unrhyw syniadau neu faterion ynglŷn â'u cwrs. Mae rhai ysgolion yn creu hysbysfyrddau. Mae eraill yn cyflwyno'u hunain mewn darlithoedd. Mae rhai myfyrwyr yn derbyn hysbys ar Facebook neu wrth gynnal grwpiau ffocws.</p> | <p>AROLWG CYNRYCHIOLYDD MYFYRWYR</p> <p>Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, byddwch yn derbyn e-bost o Undeb y Myfyrwyr yn gofyn i chi lenwi'r Arolwg Cynrychiolydd Myfyrwyr. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi ddweud wrthym sut mae'r flwyddyn wedi mynd a os oes angen gwneud unrhyw welliannau.</p> |
| <p>LLAWLYFR CYNRYCHIOLWR</p> <p>Mae'r llawlyfr cynrychiolwr wedi'i lenwi â gwybodaeth bwysig a all eich helpu yn eich rôl. Mae'r ddogfen yn cynnwys dyddiadau allweddol, yn argymhell cyfarfodydd y dylech eu mynychu ac yn nodi'r cyfleoedd sydd ar gael i chi yn eich rôl.</p> | <p>FFORYMAU COLEG**</p> <p>Ar gyfer Cadeiryddion yn unig neu eu henwebion. Dylai holl Gadeiryddion y tri Coleg mynychu eu fforymau Coleg perthnasol.</p> | <p>HELPU YN YSTOD WYTHNOS SIARAD</p> <p>Mae yna sawl ffordd y gallwch helpu yn ystod Wythnos Siarad. Gallwch gymryd rhan ar stondin neu ddigwyddiad Undeb Myfyrwyr neu gallwch gynnal digwyddiad/prosiect penodol ar eich Ysgol gyda cynrychiolwyr eraill eich Ysgol.</p> | <p>SEFYDLU GRŴP FACEBOOK</p> <p>Mae llawer o fyfyrwyr yn defnyddio Facebook i gyfathrebu. Gwnewch grŵp Facebook ar gyfer eich cyd-fyfyrwyr a/neu grŵp y flwyddyn. Rhwch gyfle i'r myfyrwyr drafod eu syniadau a'u barn am welliannau i'r ysgol. Gallwch ddefnyddio'r rhain yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. Gallwch hefyd ddefnyddio'r grŵp i gau'r ddolen adborth a hysbysu'ch cyd-fyfyrwyr o unrhyw ddiweddariadau.</p> | <p>ADRODDIAD MYFYRIOL</p> <p>Dywedwch wrthym am eich gwaith y flwyddyn hon a sut y mae pethau wedi mynd. Gall hyn fod mor hir ag y dymunwch, ond rhaid iddo fod o leiaf 400 gair. Dywedwch wrthym beth aeth yn dda, a beth gallai ei wella a sut rydych yn teimlo am y flwyddyn. Dylech gynnwys unrhyw brosiectau yr ydych wedi'u gweithio arnynt fel Cynrychiolydd ac unrhyw enillion yr ydych wedi ei gael yn eich rôl neu fel ysgol.</p> |
| <p>HYFFORDDIANT AR-LEIN*</p> <p>Ar gyfer yr holl Gynrychiolwyr hynny sy'n dychwelyd i'w rôl cynrychiolydd byddwn yn creu hyfforddiant ar-lein. Byddai'n fuddiol i chi fynychu hyfforddiant drwy berson i ddal fyny â newidiadau o fewn eich ysgol. Ond os ydych wedi dewis peidio â mynychu hyfforddiant mae'n hanfodol i chi loywi eich sgiliau Cynrychiolydd trwy ymgymryd â hyfforddiant ar-lein.</p> | <p>MYNYCHU'R CCB</p> <p>Mae'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn gyfle gwych i chi ddarganfod beth mae'r myfyrwyr yn siarad am ac i gymryd rhan yn y drafodaeth. Mae dros 600 o fyfyrwyr yn mynychu'r cyfarfod gan gynnwys aelodau o gymdeithasau a chlybiau chwaraeon, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan fyfyrwyr a cynrychiolwyr academaidd myfyrwyr. Mae myfyrwyr yn pleidleisio ar bolisiau a fydd yn effeithio corff myfyrwyr ehangach.</p> | <p>YMGEISIO I FOD YN WEITHREDWR ADDYSG</p> <p>Mae Is Lywydd Addysg yn chwilio am fyfyrwyr brwd i fod ar adran weithredol addysg. Dim ond ychydig o lefydd sydd ar gael. Bydd aelodau yn eistedd ar rai cyfarfodydd gydag uwch aelodau staff y Brifysgol i gynrychioli poblogaeth y myfyrwyr a gwneud penderfyniadau pwysig ar lunio polisi'r brifysgol. Bydd yr adran weithredol addysg hefyd yn helpu gydag ymgyrchoedd addysg a mynychu Fforymau Coleg tra hefyd yn helpu i hyrwyddo arolygon myfyrwyr.</p> | <p>SIARAD MEWN DARLITHOEDD</p> <p>Mae mynd i siarad gyda'r myfyrwyr mewn darlithoedd yn ffordd dda o gyfathrebu gyda grŵp mawr o fyfyrwyr. Sicrhewch fod y myfyrwyr yn adnabod eich wyneb fel eu bod yn gwybod pwy i siarad â am syniadau, barn a phroblemau yn ymwneud â'r cwrs.</p> | <p>ENWEBU RHYWUN AM WOBR CYFOETHOGI BYWYD MYFYRWYR</p> <p>Digwyddiad blynyddol yw Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr sy'n cydnabod gwaith caled myfyrwyr a staff. Mae'r categorïau'n amrywio o Athro Mwyaf Effeithiol i Aelod o Staff mwyaf Ysbydoledig i Gynrychiolydd Myfyriwr y flwyddyn. Rydym am gynyddu proffil y gwobrau a gyda'ch cyngor chi gallwn wneud hyn! Gwnewch yn siŵr eich bod yn enwebu person haeddiannol ar gyfer Gwobr eleni!</p> |
| <p>DATBLYGU SGILIAU</p> <p>Mae Gwasanaethau Datblygu Sgiliau (GDS) yn cynnig rhaglenni hyfforddiant ar gyfer holl gynrychiolwyr i gyfoethogi eu CV a helpu Datblygiad Personol, mae hyn yn cynnwys dosbarthiadau arwain, rheoli amser a sgiliau cyflwyno.</p> | <p>MYNYCHU SENEDD MYFYRWYR</p> <p>Mae Senedd Myfyrwyr yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn i basio polisi sy'n effeithio ar gymuned myfyrwyr Prifysgol Caerdydd. Mae hyn yn gwasanaethu fel cyfle gwych i basio polisi sy'n seiliedig ar faterion academaidd a helpu'r Undeb i wneud penderfyniadau.</p> | <p>ADOLYGIAD CYFNODOL</p> <p>Mae Adolygiad Cyfnodol yn broses safonau academaidd sy'n digwydd ym mhob ysgol, bob pum mlynedd. Mae eich mewnbwn yn hanfodol yn ymgysylltu gyda chorff myfyrwyr ehangach ar gyfer adborth tuag at y broses adolygiad cyfnodol.</p> | <p>TYSTIOLAETH CAU'R DDOLEN ADBORTH</p> <p>Rydym bob amser yn awyddus i glywed am eich enillion – waeth pa mor fawr neu fach. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth eich cyd-fyfyrwyr. Os yw pwynt yr ydych wedi'i godi yn y Panel Staff Myfyrwyr wedi cael ei gweithredu rhwch wybod i'r myfyrwyr – gelwir hyn yn cau'r ddolen adborth. Gellir roi gwybod am eich enillion yng nghofnodion Panel Staff Myfyrwyr neu drwy gyfathrebu dros e-byst gyda staff yr Ysgol.</p> | <p>CAEL EICH ENWEBU AR GYFER GWOBR CYFOETHOGI BYWYD MYFYRWYR</p> <p>Mae cael eich enwebu ar gyfer Gwobr Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr yn profi eich bod wedi gweithio'n galed yn eich rôl. Mae yna ddau wobwr y gallwch gael eich enwebu ar ei gyfer – y cyntaf yw fel Cynrychiolydd Myfyrwyr Academaidd y flwyddyn, a'r ail yw'r Rhôl Anrhydedd sy'n cydnabod myfyrwyr sydd yn cyfrannu ar brosiectau lleol neu brosiectau gwirfoddoli ar ben eu gradd.</p> |
| <p>DARLLENWCH DDOGFENNAU CYNRYCHIOLYDD (SIARTER, ACM, CROESO I GAERDYDD)</p> <p>Mae amrywiaeth o wybodaeth ar gyfer Cynrychiolwyr ar gael er mwyn darganfod mwy ynglŷn â beth mae myfyrwyr yn yr ysgol yn ei feddwl o'r cwrs. Cymerwch olwg ar Siarter y Myfyrwyr, Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2014/15, Croeso i Gaerdydd, Astudio yng Nghaerdydd er mwyn cael gwell syniad o'r hyn y mae myfyrwyr Caerdydd yn ei feddwl.</p> | <p>CYFARFOD Â LLAIS MYFYRWYR</p> <p>Wedi'i leoli yn Undeb y Myfyrwyr, mae gan Tim Llais Myfyrwyr ddi-ddordeb yn gwybod sut mae'ch blwyddyn yn mynd. Gallwch ddod i sgwrsio â nhw ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn i drafod syniadau neu chael cymorth a chyngor am eich rôl yn ogystal â darganfod mwy am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i gynrychiolwyr.</p> | <p>ADOLYGIAD A GWELLIANT BLYNYDDOL</p> <p>Mae Adolygiad a Gwelliant Blynyddol yn broses flynyddol gyda phob ysgol yn cymryd rhan. Mae'r Ysgolion yn adolygu popeth o ymgysylltu â myfyrwyr, i sgoriau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, recriwtio a chreu rhaglenni newydd.</p> | <p>CYFATHREBU Â'CH CYMDEITHASAU YN SEILIEDIG AR GWRS</p> <p>Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion gymdeithasau yn seiliedig ar gwrs. Mae hyn yn cysylltu trafodaeth academaidd gyda phrofiad mwy cymdeithasol. Mae'n gyfle gwych i siarad â mwy o fyfyrwyr yn eich ysgol am eu profiadau.</p> | <p>AGENDA CADEIRYDD AC YSGRIFENNYDD</p> <p>Mae'n ddyletswydd ar y Cadeirydd a'r Ysgrifennyddion i deipio'r agenda a'i ddanfôn i'r rheini fydd yn bresennol yn y Panel Staff Myfyrwyr. Dylai'r rhai sy'n mynychu gael cyfle i ychwanegu eitemau agenda i fewn. Felly, dylai'r agenda gael ei roi at ei gilydd tua wythnos cyn y cyfarfod fel y gall unrhyw ddiweddariadau gael eu hychwanegu.</p> |
| <p>CYFARFOD EICH CYDLYNYDD CYNRYCHIOLYDD MYFYRWYR (CCM)</p> <p>Eich Cydlynnydd Cynrychiolydd Myfyrwyr yw'ch pwynt cyswllt o fewn yr ysgol. Byddai cyfarfod â nhw yn eich helpu yn eich rôl i ddarganfod mwy am yr ysgol a beth sydd wedi cael ei drafod yn y Panel Staff Myfyrwyr o'r blaen.</p> | | <p>CYNNAL PROSIECT YSGOLION</p> <p>Gweithio gyda chynrychiolwyr eraill yn eich ysgol i ddatrys problem ynghylch eich cwrs. Gall Tim Llais y Myfyrwyr yn Undeb y Myfyrwyr eich helpu â hyn. Gallwch ddarganfod sut yr hoffai fyfyrwyr gael adborth ar eu cwrs er mwyn gwella neu chael mwy o lyfrau a ddefnyddiau ar gyfer eich cwrs.</p> | <p>CYFATHREBU ELECTRONIG GYDA LLAIS Y MYFYRWYR (YMATEB I E-BOST)</p> <p>Gallwch ofyn i'ch SRC i'ch helpu i ddanfôn neges e-bost torfol i fyfyrwyr eich ysgol. Yn y gorffennol mae Cynrychiolwyr wedi danfon arolygon, holiaduron a chylchlythyrau.</p> | <p>COFNODION CADEIRYDD AC YSGRIFENNYDD AR AMSER</p> <p>Mae'n ddyletswydd ar y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd ysgrifennu'r cofnodion a'i ddanfôn i bawb a oedd yn bresennol yn y Panel Staff Myfyrwyr. Rhaid i hyn gael ei wneud o fewn pythefnos i'r cyfarfod.</p> |
|  | | <p>CYNRYCHIOLYDD Y FLWYDDYN (ADRODDIAD GAIR 300)</p> <p>Cwblhewch adroddiad yn dweud wrthym pam yr ydych chi, neu Cynrychiolydd arall yn haeddu bod yn Gynrychiolydd y Mis. Dywedwch wrthym pam y ddylai'r unigolyn hwnnw dderbyn cydnabyddiaeth am y gwaith maent yn ei wneud.</p> | |  |

*Dim ond Cynrychiolwyr adroddol a myfyrwyr lleoliad gwaith all ddefnyddio'r cyfleuster hon / ** Dim ond Cadeiryddion (neu eu enwebai) o Baneli